# Yswiriant rhag llifogydd - taflen ffeithiau

**Cefndir**

Nid yw'r trefniadau yn y dyfodol ar gyfer yswiriant rhag llifogydd yn fater datganoledig ac felly cânt eu harwain gan Lywodraeth y DU drwy Defra. Mae Defra yn arwain trafodaethau gyda Chymdeithas Yswirwyr Prydain ac yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ar y cynigion. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o'r broses o ddylunio'r cynllun yswiriant rhag llifogydd newydd, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ar y cyd â Defra fydd hynny. Bydd ein rôl yn y dyfodol yn parhau'n gymharol ddigyfnewid o hyn ymlaen - sef sicrhau bod data a mapiau ar gael ar leoliad perygl llifogydd a lefel y perygl hwnnw er mwyn hysbysu'r cyhoedd ac yswirwyr. Mae Defra yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer y dyfodol ac yn gofyn am sylwadau gan sefydliadau a'r cyhoedd ledled y DU. Ceir manylion am yr ymgynghoriad hwnnw yn https://consult.defra.gov.uk/flooding/floodreinsurancescheme/.

<table>
<tr><th colspan="2">GWYBODAETH AM BERYGL LLIFOGYDD</th></tr>
<tr><td>C1. Sut y gallaf ddarganfod os yw fy eiddo mewn perygl o lifogydd?</td><td>Gall dŵr sy'n achosi llifogydd ddeillio o sawl gwahanol ffynhonnell - e.e. o ddŵr wyneb (h.y. dŵr glaw sy'n llifo dros y ddaear neu'n cronni ar y ddaear cyn y gall ymuno ag afonydd neu'r system ddraenio); systemau carthffosydd neu ddraenio sy'n gorlifo neu'n llifo am yn ôl sy'n rhy llawn; dŵr daear sy'n codi o ddyfrhaenau tanddaear; neu o afonydd sy'n gorlifo neu ymchwyddiadau arfordirol o ganlyniad i stormydd.<br><br>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn comisiynu Asiantaeth yr Amgylchedd i gyhoeddi mapiau sy'n dangos perygl llifogydd i ardaloedd o dir o afonydd a'r môr, cronfeydd dŵr a dŵr wyneb ar y rhyngrwyd yn http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/?lang=cy. Gellir gweld y mapiau drwy ddilyn y ddolen allanol 'Find out if you are at risk from flooding' ac enwau'r mapiau yw:<br>• Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr<br>• Perygl Llifogydd o Gronfeydd Dŵr<br>• Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb<br>Mae'n bwysig eich bod yn edrych ar yr amrywiol fapiau ar y rhyngrwyd er mwyn gweld p'un a ydych mewn ardal lle ceir perygl llifogydd o afonydd, y môr, cronfeydd dŵr a dŵr wyneb, cael gwybod beth y gallwch ei wneud am y perygl hwn, a sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru helpu.<br>Drwy glicio ar y map Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr, gallwch hefyd gael gwybod p'un a ystyrir bod y tebygolrwydd o lifogydd o afonydd a'r môr yn eich ardal yn 'Sylweddol' at ddibenion yswiriant. Mae'r tebygolrwydd o lifogydd yn 'Sylweddol' lle bo'n fwy na 1 mewn 75 (1.3%) mewn unrhyw flwyddyn benodol neu'n hafal i hynny. Diffiniwyd 'Sylweddol' yn y 'Datganiad o Egwyddorion' y cytunwyd arno rhwng y Llywodraeth a Chymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI), ac mae aelodau ABI yn parhau o'u gwirfodd i fodloni eu hymrwymiadau i'w cwsmeriaid presennol o dan y cytundeb hwn hyd nes y caiff fersiwn newydd ei roi ar waith.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr ABI yn www.abi.org.uk/Insurance-and-savings/Topics-and-issues/Flooding.<br><br>Gallwch hefyd gael y wybodaeth hon o Ganolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm) neu drwy anfon e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk |
| *C2. Beth mae'r mapiau yn ei ddangos?* | Mae'r map Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr yn dangos graddau a thebygolrwydd llifogydd gan ystyried unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fe'i lluniwyd gan ddefnyddio Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'n dangos llifogydd o ffynonellau eraill, fel dŵr daear, neu garthffosydd yn gorlifo. Gall fod gan swyddfa leol Cyfoeth Naturiol Cymru, eich Awdurdod Lleol neu'ch Cwmni Dŵr ragor o wybodaeth am y rhain.<br><br>Mae'r map Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb yn dangos yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd dŵr daear, ac mae hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am ddyfnder llifogydd, cyflymder y dŵr a chyfaint y dŵr. Cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi am Berygol Llifogydd o Ddŵr Wyneb.<br><br>Cyflwynir y wybodaeth am berygl llifogydd o afonydd a'r môr a dŵr wyneb mewn pedwar categori o ran y tebygolrwydd y bydd perygl llifogydd, sef:<br>• **Uchel** - Tebygolrwydd o fwy nag 1 mewn 30 mewn unrhyw flwyddyn benodol (3.3%) neu'n hafal i hynny;<br>• **Canolig** - Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 30 (3.3%) ond yn fwy nag 1 mewn 100 (1%) neu'n hafal i hynny mewn unrhyw flwyddyn benodol;<br>• **Isel** - Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 100 (1%) ond yn fwy nag 1 mewn 1,000 (0.1%) neu'n hafal i hynny mewn unrhyw flwyddyn benodol;<br>• **Isel Iawn** - Tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 1,000 (0.1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol.<br><br>Mae'n bwysig cofio bod tebygolrwydd o lifogydd bob amser - eleni, y flwyddyn nesaf ac mewn blynyddoedd i ddod.<br>Mae'r map Perygl Llifogydd o Gronfeydd Dŵr yn dangos yr ardal a allai orlifo pe byddai cronfa ddŵr fawr yn methu ac yn rhyddhau'r dŵr o'i mewn.<br><br>Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru wybodaeth am lefelau lloriau, nodweddion adeiladu na dyluniadau eiddo sydd ei hangen er mwyn gallu nodi p'un a fyddai llifogydd o ddyfnder penodol yn llifo i eiddo ac yn achosi difrod. Felly, mae'n bosibl na fydd pob eiddo yn yr ardaloedd a ddangosir fel ardaloedd mewn perygl yn gorlifo, ond mae'n bwysig eich bod yn edrych ar yr amrywiol fapiau ar y rhyngrwyd er mwyn gweld p'un a ydych mewn ardal lle ceir perygl llifogydd o afonydd, y môr, cronfeydd dŵr a dŵr wyneb, cael gwybod beth y gallwch ei wneud am y perygl hwn a sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru helpu. |
| *C3. Beth mae tebygolrwydd o lifogydd yn ei olygu?* | Caiff y tebygolrwydd o lifogydd ei ddisgrifio fel y posibilrwydd y ceir llifogydd mewn lleoliad mewn unrhyw flwyddyn.<br><br>Os oes posibilrwydd o 1% bod lleoliad yn mynd i orlifo bob blwyddyn, gellir dweud bod:<br>• Posibilrwydd o 1 mewn 100 o lifogydd yn y lleoliad hwnnw mewn unrhyw flwyddyn;<br>• Ods betio o 100 i 1 yn erbyn y lleoliad yn gorlifo mewn unrhyw flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, os caiff lleoliad ei orlifo un flwyddyn, nid yw hyn yn golygu na chaiff ei orlifo am y 99 mlynedd nesaf. Nac ychwaith, os nad yw wedi gorlifo am 99 o flynyddoedd, y bydd o reidrwydd yn gorlifo eleni. Pan fyddwn yn disgrifio'r tebygolrwydd o lifogydd, byddwn yn pennu un o bedwar disgrifiad neu'n ei roi mewn un o bedwar categori (Gweler yr ateb i **C2 ar 'Beth mae'r mapiau yn ei ddangos'**).<br>Po **isaf y ganran** yna po **leiaf y tebygolrwydd** y ceir llifogydd mewn unrhyw flwyddyn unigol; po **uchaf y ganran** yna po **fwyaf y tebygolrwydd** y ceir llifogydd mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| *C4. Mae eich map yn dangos fod perygl llifogydd i'm heiddo ond rwyf wedi byw yma ers blynyddoedd ac nid yw erioed wedi mynd dan ddŵr.* | Mae mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos y perygl llifogydd i dir nid eiddo unigol, ac mae'n dangos lleoliadau mewn perygl, yn hytrach na lleoliadau sydd wedi dioddef llifogydd neu nad ydynt wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol. Er enghraifft, gall fod lleoliadau y nodir bod perygl sylweddol iddynt nad ydynt wedi dioddef llifogydd yn ystod oes morgais nodweddiadol (30 mlynedd). Er bod hyn yn golygu bod tebygolrwydd uwch na 2 mewn 3 y byddent yn dioddef llifogydd yn ystod y cyfnod hwn, mae hefyd yn golygu bod tebygolrwydd o bron i 1 mewn 3 na fyddent yn dioddef llifogydd, a dyna pam na fyddwch o bosibl wedi dioddef llifogydd ers i chi fyw yno. Nid yw hyn yn newid y perygl y bydd lleoliad yn dioddef llifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodedig. Dylai'r map annog pobl i fod yn ymwybodol o'r perygl ac i gael gwybod mwy am sut y gallant baratoi eu heiddo ar gyfer llifogydd. |
| *C5. Rwy'n byw mewn fflat ail lawr (neu uwch) ac nid oes unrhyw bosibilrwydd o lifogydd.* | Mae mapiau Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos cymunedau a strydoedd ond ni all ddangos p'un a yw eiddo unigol yn debygol o ddioddef llifogydd. Maent yn ganllaw i annog ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ymhlith pobl mewn ardaloedd tir isel, ger yr arfordir, afonydd a rhai cyrsiau dŵr eraill. Hyd yn oed os nad effeithir ar eich cartref gan lifogydd, gallant effeithio ar yr ardal leol, felly mae'n bwysig bod yn ymwybodol ac yn barod ar eu cyfer. Er enghraifft, gall car arnofio mewn dim ond dwy droedfedd o ddŵr. Os bydd yr ardal wedi gorlifo, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu cyrraedd neu adael eich cartref, ac mae'n bosibl yr amherir ar eich cyflenwad pŵer, nwy neu ddŵr. |
| *C6. Beth os credaf fod y wybodaeth perygl llifogydd ar gyfer fy ardal/eiddo yn anghywir?* | Ar gyfer gwybodaeth am lifogydd o afonydd a'r môr, dylech gysylltu â'ch swyddfa leol Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn a oes ganddynt wybodaeth fwy cyfredol nas cyhoeddwyd eto, neu unrhyw wybodaeth fanylach a allai gadarnhau'r Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol - e.e. lefelau llifddwr a ragwelir y gellir eu cymharu ag uchder llawr gwirioneddol eich eiddo.<br><br>Ar gyfer gwybodaeth am lifogydd dŵr wyneb, dylech gysylltu â'ch Awdurdod Lleol.<br><br>Mae'n bosibl y byddwch yn gallu rhoi gwybodaeth benodol am eich eiddo i'ch yswiriwr sy'n dangos bod y perygl llifogydd i'ch eiddo yn is na'r perygl sy'n berthnasol i'r ardal lle y'i lleolir e.e.<br>• Gallai fod gennych wybodaeth dopograffigol well i ddangos bod eich eiddo yn uwch na lefel llifogydd benodol<br>• Efallai y byddwch yn gallu dangos bod pob cyfannedd o'r tŷ yn uwch na'r lefelau llifogydd hysbys hyn<br>• Gallwch ddangos bod eich cymuned neu eich bod chi wedi cymryd camau unigol i atal llifddwr rhag dod i mewn i'ch eiddo neu i leihau'r difrod os bydd llifddwr yn dod i mewn.<br><br>Gallwch ystyried gofyn i weithiwr proffesiynol annibynnol (e.e. aelodau o sefydliad siartredig priodol fel Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig, Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r |

| | |
|---|---|
| | Amgylchedd, neu Gymdeithas y Peirianwyr Adeiladu), sydd â phrofiad o asesu'r perygl llifogydd ar gyfer eiddo unigol, asesu'r perygl llifogydd yn benodol ar gyfer eich eiddo.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r prif awdurdod o ran mapio ac asesu perygl llifogydd yng Nghymru, ond nid oes ganddo rôl o ran penderfynu ar yswiriant na gosod premiymau - mater i yswirwyr yw hynny. Fodd bynnag, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried tystiolaeth gan eraill o berygl llifogydd wrth ddiweddaru ei fapiau, felly rhannwch unrhyw wybodaeth a gyflwynwch i'ch yswiriwr â'ch swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru leol.<br><br>Ffoniwch Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm neu anfonwch e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. |
| *C7. A godir tâl arnaf am wybodaeth a faint fyddai'n ei gostio?* | Mae llawer o wybodaeth am lifogydd ar gael ar y rhyngrwyd am ddim yn http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/?lang=cy.<br><br>Os byddwch am i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal chwiliad am unrhyw wybodaeth bellach neu am wybodaeth benodol yn ymwneud ag ardal eich eiddo a darparu ymateb ysgrifenedig, dim ond os ydych yn sefydliad masnachol y codir tâl arnoch. Ffoniwch Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm neu anfonwch e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. |
| *C8. Pa mor aml y caiff gwybodaeth am lifogydd ei diweddaru?* | Caiff y map Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr ar y rhyngrwyd ei ddiweddaru bedair gwaith y flwyddyn.<br><br>Caiff y diweddariadau hyn eu llywio gan yr angen i ni wella ein dealltwriaeth o berygl a ph'un a oes gennym wybodaeth newydd e.e. adeiladwyd amddiffynfeydd newydd. Dylech edrych ar y map bob blwyddyn er mwyn gweld p'un a yw'r perygl llifogydd yn eich ardal wedi newid.<br><br>Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynlluniau i ddiweddaru'r map Perygl Llifogydd o Ddŵr Wyneb na'r map Perygl Llifogydd o Gronfeydd Dŵr. |
| *C9. A oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd/ Cyfoeth Naturiol Cymru gofnodion am lifogydd yn y gorffennol?* | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cofnodi graddau'r llifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, lle mae'n ymwybodol o lifogydd ac mae'n gymharol ffyddiog bod y cofnodion yn gywir. Cesglir y data ynghyd i fap o'r enw'r Map Llifogydd Hanesyddol.<br><br>Lle bo cofnodion o lifogydd hanesyddol yn bodoli, caiff dyddiadau llifogydd eu cynnwys mewn ymateb ysgrifenedig i gais am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'ch eiddo (**gweler C8 am wybodaeth am godi tâl).**<br><br>Nid yw'r ffaith nad yw ardal o dir yn ymddangos ar gofnodion o lifogydd yn golygu na fu llifogydd yno erioed. Yn yr un modd, oherwydd bod ardal o dir wedi'i nodi fel ardal lle bu llifogydd, nid yw hynny'n golygu bod llifogydd wedi mynd i mewn i unrhyw eiddo o fewn yr ardal honno. Mae'n bosibl hefyd bod patrwm llifogydd yn yr ardal hon wedi newid ac y byddai'r ardal hon bellach yn gorlifo o dan amgylchiadau gwahanol. Wrth i fwy o ddata ar lifogydd hanesyddol ddod i'r amlwg, ac wrth i lifogydd ddigwydd, yna byddwn yn cofnodi hyn lle bo digon o wybodaeth ar gael. |
| *C10. Pa ddiogelwch y mae amddiffynfeydd rhag llifogydd / sianelau afonydd* | Gall amddiffynfeydd rhag llifogydd, a chapasiti sianelau naturiol neu sianelau wedi'u creu, ddarparu rhywfaint o ddiogelwch rhag llifogydd i ardal. Mae'n bwysig cofio y gall amddiffynfeydd rhag llifogydd fethu neu y gall dŵr fynd dros amddiffynfeydd o'r fath yn ystod amodau llifogydd eithafol. |

| | |
|---|---|
| *yn ei gynnig?* | Mae'r map Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr y gellir ei weld drwy http://naturalresourceswales.gov.uk/flooding-and-water/?lang=cy yn dangos y perygl llifogydd gan ystyried lleoliad a chyflwr amddiffynfeydd rhag llifogydd.<br><br>Os hoffech gael gwybod mwy am amddiffynfeydd rhag llifogydd yn eich ardal, bydd eich swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru leol yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi; cysylltwch â Chanolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm) neu anfonwch e-bost i enquiries@naturalresourceswales.gov.uk |
| *C11. Rwy'n clywed bod gwelliannau ar y gweill yn fy ardal. Beth rydych yn ei olygu wrth hyn?* | Cyn y gall Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu p'un a ddylid gwneud gwelliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd neu sianelau afonydd naturiol, bydd angen cynnal ymchwiliad er mwyn ystyried dichonoldeb y cynllun arfaethedig. Bydd yr ymchwiliad hwn yn ystyried nifer o faterion gan gynnwys p'un a fyddai gwelliannau i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd yn gosteffeithiol. Yn dilyn cyfnod ymchwilio boddhaol, mae'n bosibl y caiff gwelliannau eu cynllunio a'u cynnal. |
| **2. SUT Y CAIFF GWYBODAETH AM BERYGL LLIFOGYDD EI DEFNYDDIO GAN YSWIRWYR** | |
| *C12. Pa wybodaeth y mae cwmnïau yswiriant yn ei defnyddio ar hyn o bryd i asesu perygl llifogydd?* | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod data ar berygl llifogydd ar gael i gwmnïau yswiriant er mwyn eu helpu i gynnig yswiriant. Gall yswirwyr weld yr un wybodaeth ar berygl llifogydd o afonydd a'r môr, cronfeydd dŵr a dŵr wyneb ag y gallwch chi ei gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw rôl wrth benderfynu ar yswiriant na phennu premiymau. Gall yswirwyr ddefnyddio unrhyw ddata i benderfynu p'un a ddylid cynnig yswiriant ac am ba bris.<br><br>Bydd yswirwyr yn dewis pa wybodaeth a ddefnyddir ganddynt i ystyried perygl llifogydd ac mae llawer ohonynt, ond nid pob un, yn defnyddio gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel arfer, bydd yswirwyr yn ychwanegu gwybodaeth fwy manwl am berygl llifogydd at hwn - o'u cynhyrchion mapio priodol, hanes hawliadau yn y gorffennol, a gwybodaeth gan ddarparwyr data eraill. At hynny, mae'n bosibl y bydd yswirwyr yn barod i dderbyn gwybodaeth ychwanegol am berygl llifogydd eiddo unigol o ffynonellau dibynadwy e.e. arolwg annibynnol neu asesiad perygl llifogydd.<br><br>Mae pa mor aml y bydd yswirwyr yn diweddaru eu systemau gan ddefnyddio data Cyfoeth Naturiol Cymru, os byddant yn dewis eu trwyddedu, yn dibynnu ar eu polisïau a'u gallu i ddiweddaru eu systemau. Mae'r data hyn yn darparu cam cyntaf i yswirwyr wrth asesu yswiriant ac fe'u hategir gan ganllawiau caeth ar sut y gall yr yswirwyr ddefnyddio'r data. |
| *C13. Rwy'n byw mewn ardal sy'n wynebu perygl llifogydd. Pa yswiriant a gaiff ei gynnig i mi ar fy eiddo?* | Yn gyffredinol, mae yswiriant yn erbyn llifogydd ar gael ar gyfer y mwyafrif helaeth o eiddo yn y DU. Fodd bynnag, ni all yswirwyr warantu y byddant yn darparu yswiriant ym mhob achos.<br><br>Wrth asesu perygl llifogydd, gall yswirwyr ystyried pob ffynhonnell llifogydd. Bydd aelodau ABI yn cynnig yswiriant rhag llifogydd yn y ffordd arferol ar bolisïau adeiladau a chynnwys i berchenogion tai a busnesau bach mewn ardaloedd:<br>• lle **nad** ystyrir bod y tebygolrwydd o lifogydd o afonydd neu'r môr yn 'Sylweddol' (mae'r tebygolrwydd o lifogydd yn uwch nag 1 mewn 75 (1.3%) mewn unrhyw flwyddyn benodol neu'n hafal i hynny) yn unol â'r diffiniad yn y cytundeb 'Datganiad Egwyddorion' rhwng y llywodraeth a Chymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI);<br>• lle y caiff amddiffynfeydd eu hadeiladu neu eu gwella o fewn pum mlynedd; |

| | |
|---|---|
| | • a lle nad oes unrhyw bryder penodol am lifogydd o ffynonellau llifogydd eraill.<br>Mae hyn yn berthnasol i ddeiliaid polisi presennol a chwsmeriaid newydd.<br><br>Bydd aelodau ABI hefyd yn parhau i ddarparu yswiriant i ddeiliaid polisi presennol, ar yr amod bod y safon o yswiriant a gynigir yn cyfateb i debygolrwydd o 1 mewn 75 (1.3%) neu'n well. At hynny, lle bydd perchenogion tai mewn un o'r ardaloedd hyn yn gwerthu eu heiddo, bydd eu hyswirwyr presennol yn parhau i ddarparu yswiriant, yn amodol ar wybodaeth foddhaol am y perchenogion tai newydd. Ar gyfer busnesau bach sy'n newid perchenogaeth, bydd aelodau o Gymdeithas Yswirwyr Prydain yn parhau i ddarparu yswiriant, yn amodol ar wybodaeth foddhaol am y perchenogion newydd ac, er enghraifft, unrhyw gynlluniau i newid y defnydd o'r eiddo.<br><br>Ni fydd yswirwyr yn gwarantu i ddarparu yswiriant ym mhob achos, yn arbennig mewn ardaloedd:<br>• lle nad ystyrir bod y tebygolrwydd o lifogydd o afonydd neu'r môr yn 'Sylweddol' (lle mae'r tebygolrwydd o lifogydd yn uwch nag 1 mewn 75 (1.3%) mewn unrhyw flwyddyn benodol neu'n hafal i hynny) yn unol â'r diffiniad yn y cytundeb 'Datganiad Egwyddorion' rhwng y llywodraeth a Chymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI);<br>• a lle nad oes unrhyw welliannau i amddiffynfeydd parhaol ar y gweill neu'n ddichonadwy a bod y tebygolrwydd blynyddol o lifogydd yn fwy nag 1 mewn 75 (1.3%).<br><br>Lle mae hanes o lifogydd mewn ardaloedd lle mae'r tebygolrwydd o lifogydd yn 'Sylweddol', a lle nad oes unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd ar y gweill, bydd yswirwyr yn ymdrechu i'r eithaf i weithio gyda deiliaid polisi i nodi, ar sail achosion unigol, pa gamau y gallant hwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Lleol neu'r Cwmni Dŵr eu cymryd er mwyn gallu parhau i ddarparu yswiriant. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rhwystrau dros dro a roddir ar waith cyn achos o lifogydd, neu fesurau y gall perchenogion tai eu cymryd i leihau difrod, fel cynhyrchion llifogydd tai y gellir eu symud, y gall perchenogion tai eu prynu a'u gosod eu hunain (ar ôl cael cyngor proffesiynol addas) i ddiogelu eu heiddo, neu ddefnyddiau adeiladu sy'n lleihau difrod os bydd y tŷ yn gorlifo.<br><br>Ym mhob achos, caiff telerau yswiriant eu pennu gan yr yswiriwr a byddant yn adlewyrchu gwahanol raddau o berygl. Gall fod rhesymau nad ydynt yn gysylltiedig â pherygl llifogydd a fydd yn arwain at benderfyniad gan yswiriwr i beidio â chynnig yswiriant.<br><br>Er mwyn cael gwybod p'un a yw'r tebygolrwydd o lifogydd o afonydd a'r môr yn 'Sylweddol' yn eich ardal, ewch i http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/?lang=cy. Gellir gweld y mapiau drwy ddilyn y ddolen allanol 'Find out if you are at risk from flooding'. Teipiwch eich cod post a chliciwch ar y map Perygl Llifogydd o Afonydd a'r Môr er mwyn gweld rhagor o wybodaeth. Gallwch hefyd gael gafael ar y wybodaeth hon drwy gysylltu â Chanolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm) neu drwy anfon e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.<br><br>Mae Defra a'r ABI wrthi'n datblygu dull gweithredu newydd mewn perthynas ag yswiriant rhag llifogydd a ddechreuodd ym mis Gorffennaf – i gael rhagor |

| | |
|---|---|
| | o wybodaeth, gweler https://consult.defra.gov.uk/flooding/floodreinsurancescheme/<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am sut i ddiogelu eich eiddo ar gael yng nghyhoeddiad ABI "Flood Resilient Homes" sydd ar gael yn: http://www.abi.org.uk/flooding. |
| *C14. Sut mae fy yswiriwr yn cael gwybod a oes cynlluniau i adeiladu amddiffynfeydd rhag llifogydd yn fy ardal?* | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod manylion am yr ardaloedd lle y caiff amddiffynfeydd rhag llifogydd eu hadeiladu ac amlinelliad o gynlluniau ar gyfer amddiffynfeydd yn y dyfodol ar gael i yswirwyr. Gallwch hefyd gael gafael ar y wybodaeth hon drwy gysylltu â Chanolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 6pm) neu drwy anfon e-bost i ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. |
| **3. BETH Y GALLWCH EI WNEUD I LEIHAU'R PERYGL O LIFOGYDD A'R DIFROD A ACHOSIR** | |
| *C15: Beth y gallaf ei wneud i leihau'r perygl llifogydd i'm heiddo?* | Mae llawer o bethau y gall perchenogion tai eu gwneud i leihau'r difrod y gall llifogydd ei achosi.<br>• Edrychwch i weld p'un a allwch gofrestru i dderbyn rhybuddion am lifogydd am ddim Cyfoeth Naturiol Cymru gan Rhybuddion Llifogydd Uniongyrchol. Os bydd perygl llifogydd yn eich ardal leol, byddwch yn cael neges awtomatig dros y ffôn, e-bost neu ar ffurf neges testun a fydd yn rhoi amser i chi weithredu a lleihau unrhyw ddifrod posibl o ganlyniad i lifogydd.<br>• Crëwch eich cynllun llifogydd personol. Gall llunio 'cynllun' o'r hyn y mae angen i chi ei wneud a phwy y mae angen i chi ei ffonio os bydd llifogydd fod yn ddefnyddiol iawn. Gallwch lawrlwytho templed cyflym a hawdd ar gyfer cynllun llifogydd personol i'w lenwi o http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/before/?lang=cy neu ffoniwch Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.<br>• Prynwch gynhyrchion diogelu rhag llifogydd addas ar gyfer eich eiddo megis byrddau llifogydd a gorchuddion brics aer a fydd yn helpu i atal llifddwr bas rhag dod i mewn i'ch eiddo.<br>• Cymerwch gamau i leihau'r difrod y gallai llifddwr ei achosi os bydd yn dod i mewn i'ch cartref. Gallai hyn fod mor syml â symud eitemau gwerthfawr i silff uchel neu lawr uwch. Os yw eich eiddo mewn ardal lle ceir perygl uchel o lifogydd, gallai fod yn werth gwneud newidiadau strwythurol megis codi socedi pŵer uwchlaw lefel llifogydd neu osod teils a rygiau yn lle carpedi.<br><br>Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ganllaw defnyddiol o'r enw 'Byddwch yn barod am lifogydd' sydd ar gael am ddim ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/before/?lang=cy neu drwy ffonio Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000.<br><br>Mae gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys gwybodaeth a chyngor defnyddiol am beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Gellir gweld y wybodaeth hon drwy http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-advice/?lang=cy.<br><br>Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth rhybuddio am lifogydd yn eich ardal, bydd eich swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru leol yn gallu rhoi |

| | |
|---|---|
| | rhagor o wybodaeth i chi - ffoniwch Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000. Gall grwpiau gweithredu llifogydd lleol hefyd fod yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol. |
| *C16. A fydd yswirwyr yn ystyried y mesurau rwyf wedi eu rhoi ar waith fy hun i leihau perygl llifogydd?* | Os byddwch yn cymryd camau i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd i'ch cartref neu'r difrod y gall llifddwr ei achosi, mae'n bosibl y bydd yn haws i chi gael yswiriant ac y cewch gynnig premiymau sy'n rhatach, neu â gormodeddau is na phe na fyddech wedi cymryd y camau hynny.<br><br>Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yswirwyr yn gofyn i chi ddarparu adroddiad gan weithiwr proffesiynol annibynnol, â phrofiad o gynnal arolygon lliniaru perygl llifogydd, sy'n cyfeirio at y risg weddilliol o lifogydd i'ch eiddo. Os ydych yn ystyried gwaith o'r fath, fe'ch cynghorir yn gryf i gael arolwg annibynnol a ddylai ystyried pob ffynhonnell o berygl llifogydd i'ch eiddo; dyfnder posibl y llifddwr; sut y gall y dŵr ddod i mewn i'r eiddo; beth y gellir ei wneud i'w gadw allan (mesurau gwrth-lifogydd); beth y gellir ei wneud i sicrhau cyn lleied o ddifrod â phosibl os bydd llifogydd yn dod i mewn (mesurau gwrth-lifogydd); darparu argymhellion ar y mesurau hyn ynghyd â chynhyrchion addas; rhoi cyngor ar effaith y mesurau hyn ar berygl llifogydd yn y dyfodol a chostau posibl unrhyw ddifrod a chynnal arolygiad sicrwydd ansawdd ar ôl eu gweithredu.<br><br>Mae'n bwysig y caiff arolwg o'r fath ei gynnal gan weithiwr proffesiynol sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol - er enghraifft, aelodau o sefydliad siartredig priodol megis Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Brenhinol y Tirfesurwyr Siartredig, Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd neu Gymdeithas y Peirianwyr Adeiladu.<br><br>Wrth ymchwilio i gynhyrchion diogelu rhag llifogydd, dylech fod yn ymwybodol o'r canlynol:<br>• Nod Barcud Safonol Prydain ar gyfer cynhyrchion diogelu rhag llifogydd. Gallwch ddod o hyd i gynhyrchion diogelu a chyflenwyr ar wefan BSI Kitemark (www.kitemark.com).<br>• 'Blue Pages Directory' y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol (www.bluepages.org.uk). Mae'r cyfeirlyfr hwn yn cynnwys manylion am gynhyrchion diogelu rhag llifogydd a chyflenwyr.<br>• Mae'r Gymdeithas Diogelu rhag Llifogydd (http://thefpa.org.uk) hefyd yn darparu manylion am gwmnïau a all ddarparu cyngor a chyflenwi cynhyrchion diogelu rhag llifogydd.<br><br>Mae'r ABI, mewn cydweithrediad â'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol wedi paratoi canllaw o'r enw "Consumer guide to resistant and resilient repair after a flood", sydd ar gael am ddim ar www.abi.org.uk/flooding. |
| *C17. Os yw fy eiddo wedi cael ei amddiffyn yn ddigonol a fydd fy mhremiwm yswiriant yn gostwng?* | Bydd, yn gyffredinol, bydd y premiwm yn adlewyrchu barn eich yswiriwr am y perygl yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol y gall polisïau yswiriant fod yn berthnasol i lawer o wahanol beryglon a bod llawer o ffactorau eraill yn effeithio arnynt, yn ogystal â pherygl llifogydd. Caiff premiymau eu pennu'n annibynnol gan bob yswiriwr o fewn marchnad gystadleuol. |
| Lluniwyd gan: Tîm y Strategaeth Perygl Llifogydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP.<br>Gallwch gael rhagor o wybodaeth am lifogydd a materion polisi yswiriant yn http://www.abi.org.uk/flooding. | |